



Nodion Seion

Haf 2017

Gair gan y Gweinidog

Yn ein cymdeithas gynnes yn yr Arglwydd yn y Dosbarth Beiblaidd cawn gyfle ar hyn o bryd i ganolbwyntio ar ryfeddod “cariad” fel y’i darlunnir gan Paul yn I Corinthiaid 13. “Cariad yw Duw” (I Ioan 4:8). Mae cariad Duw y tu hwnt i fesuriadau dyn. Gadawn i fil o bobl gerdded heibio o’n blaen ni, ni fyddwn yn teimlo’r un fath am bob un ohonynt. Bydd ein cariad ni tuag atynt yn cael ei reoli gan eu prydd a’u gwedd a’u personoliaethau. Hyd yn oed wedi i ni ddod o hyd i rai pobl yr ydym yn eu hoffi bydd ein teimladau tuag atynt yn amrywio o gyfnod i gyfnod. Mae’r modd y mae pobl yn ein trin ni yn effeithio ar y modd yr ydym ni yn eu caru hwy.

Mae cariad Duw yn gwbl wahanol. Nid yw cariad Duw yn cael ei effeithio gan yr hyn a wêl ynom ni. A yw Duw yn ein caru ni oherwydd ein daioni ac oherwydd ein caredigrwydd? Na, mae’n ein caru ni oherwydd ei ddaioni a’i garedigrwydd ef. Dywed Ioan, “Yn hyn y mae cariad: nid ein bod ni’n caru Duw, ond ei fod ef wedi ein caru ni” (I Ioan 4:10).

Onid yw hyn yn gysur i ni? Nid yw maint ein cariad ni yn cynyddu ei gariad ef. Nid yw prinder ein cariad ni yn lleihau ei gariad ef. Nid yw ein daioni ni yn ehangu ei gariad ef ac nid yw ein gwendidau ni yn lleihau ei gariad ef. Yr hyn a ddywedodd Moses wrth genedl Israel yw’r hyn y mae Duw yn ei ddweud wrthym ni, “Nid am eich bod yn fwy niferus na’r holl bobloedd yr hoffodd yr ARGLWYDD chwi a’ch dewis... Ond am fod yr ARGLWYDD yn eich caru” (Deuteronomium 7:7,8).

Mae Duw yn ein caru ni am ei fod wedi dewis ein caru ni. Mae Duw yn ein caru ni pan fyddwn yn teimlo’n frwnt ac yn euog.

Mae Duw yn ein caru ni pan nad yw neb arall yn ein caru ni. Gall pobl ein hanwybyddu ni ond bydd Duw yn ein caru ni.

Mae Duw yn ewyllysio ein tynnu at droed y Groes i weld ac i ryfeddu at ei gariad tuag atom yn yr Arglwydd Iesu Grist. Yno cawn weld,

*T’wysog bywyd pur yn marw,
marw i brynu’n bywyd ni.* (Gwilym Hiraethog)

Mae Duw yn ewyllysio ein tynnu ni i garu fel y mae ef yn caru. Rhaid i ni gofio mai ffrwyth yw cariad. O droi i berllan Duw, cariad yw’r ffrwyth cyntaf yr ydym ni yn ei weld: “Cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunanddisgyblaeth” (Galatiaid 5:22). Nid ffrwyth yr ydym ni yn ei gynhyrchu drwy ymdrech neu ffydd ddofn mohono. Ffrwyth yr Ysbryd Glân yw cariad. Yr Ysbryd Glân sy’n cynhyrchu’r ffrwyth ynom ni.

Canghennau ydym ni yng ngwinwydden Duw. Dywedodd Iesu, “Myfi yw’r winwydden; chwi yw’r canghennau” (Ioan 15:5). Beth yw rhan y gangen mewn dwyn ffrwyth? Nid yw canghennau yn gorfod defnyddio llawer iawn o egni. Nid ydym yn clywed am arddwyr yn trin canghennau am eu bod wedi gorweithio. Nid ydym yn clywed canghennau yn cwyno ac yn ochneidio, “O mae’n rhaid i fi gynorthwyo’r grawnwin yma i dyfu.” Un swyddogaeth yn unig sydd gan y gangen sef derbyn maeth o’r winwydden. Yr un gwaith sydd gennym ni – derbyn maeth oddi wrth yr Arglwydd Iesu Grist. “Myfi yw’r winwydden; chwi yw’r canghennau. Y mae’r sawl sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, yn dwyn llawer o ffrwyth, oherwydd ar wahân i mi ni allwch wneud dim” (Ioan 15:5).

Heb Iesu Grist ni allwn ni wneud dim. Ei waith ef yw dwyn ffrwyth trwom ni. Mwyaf tyn yw ein perthynas â Iesu, mwyaf pur y medr ei gariad lifo trwom ni. A'r fath gariad yw ef! Amyneddgar. Cymwynasgar. Nid yw'n cenfigennu. Nid yw'n ymffrostio. Gadewch i ni droi at I Corinthiaid 13:4-8 ac yn lle'r gair cariad rhoi enw Crist a'n henw ni gyda'i gilydd.

“Crist ynof fi sy'n amyneddgar; Crist ynof fi sy'n gymwynasgar; Crist ynof fi sy'n gwrthod cenfigennu, Crist ynof fi sy'n gwrthod ymffrostio, Crist ynof fi sy'n gwrthod ymchwyddo. Crist ynof fi sy'n gwrthod gwneud dim sy'n anweddu, Crist ynof fi sy'n gwrthod ceisio ei ddibenion ei hun, Crist ynof fi sy'n gwrthod gwylltio, Crist ynof fi sy'n gwrthod cadw cyfrif o gam; Crist ynof fi sy'n gwrthod cael llawenydd mewn anghyfiawnder, ond

y mae'n cydlawenhau â'r gwirionedd. Crist ynof fi sy'n goddef i'r eithaf, yn credu i'r eithaf, yn gobeithio i'r eithaf, yn dal ati i'r eithaf. Crist ynof fi sydd byth yn methu caru”.

Ni wna'n cariad ni byth gyrraedd perffeithrwydd ond medrwn ni garu'n well bob dydd o dderbyn nodd a nerth gan y Gwaredwr. Pan ydym yn gyndyn i fod yn garedig cofiwn garedigrwydd yr Arglwydd Iesu Grist tuag atom ni a gofynnwn iddo ein gwneud yn fwy caredig. Pan yw'n hamynedd ni'n brin bydded i ni ddiolch i Dduw am ei amynedd ef tuag atom ni a gofyn iddo feithrin amynedd ynom ni. Pan yw'n anodd maddau gweddiwn am ras i faddau. Boed i'r cariad sydd yn Iesu Grist ein treiddio a'n bywhau.

Andrew Lenny

Cydymdeimlwn ag aelodau a gollodd anwyliaid

Mrs Elizabeth Evans (modryb), Parchg. Irfon Evans (chwaer), Mr Huw Evans (modryb), Mr David Griffiths (brawd yng nghyfraith), Mrs June Griffiths (brawd yng nghyfraith), Dr Robert Griffiths (ewythr), Mrs Audrey Evans (mam).

Yn yr ysbyty neu newydd dderbyn triniaeth

Mr Elfed Lewis, Jac Dafydd, Mrs Christine Sutherns, Mrs Eirwen Lewis, Mrs Eluned Lewis, Mr Dai Llewelyn, Mrs Helena Rees, Mrs Catrin Lewis.

Llongyfarchiadau

i **Meilyr a Teleri Gruffudd** ar enedigaeth **Alys Seren**, wyres gyntaf i **Lewis a Gwen Gruffudd**

i **Owen Evans** ar ei benodi yn Brif Weithredwr S4C. Roedd yn un o blant Ysgol Sul Seion.

i **Mr Alun Eirug Davies** ar gyhoeddi'r gyfrol, *Bywyd a Gwaith y Parch T Eirug Davies (1892-1951)*. Mae hon yn gyfrol gynhwysfawr sy'n datgelu gwaith ymchwil manwl yn portreadu cefndir a bywyd un o weinidogion amlycaf, ac un o bregethwyr mwyaf yr Annibynwyr yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Cawsom

ddwy gyfrol eisoes o law Alun yn portreadu ei dad: *T. Eirug Davies: portread mewn Llun a Gair (2008)* ac *Esgyrn Braslunio Pregethau y Parchg. T. Eirug Davies (2015)*.

i **Dr Endaf Edwards** ar ennill sedd ar Gyngor Ceredigion. Dymunwn yn dda iddo wrth ymgymryd â gwaith a chyfrifoldeb Cyngorydd Sir.

i **Gwen Gibson** ar ddod yn fuddugol yng Nghystadleuaeth Dawnsio Stryd yn Lerpwl.

Gwefan Newydd Eglwys Seion

seionaberystwyth.cymru

Diolch yn fawr iawn i Maldwyn ac ieuencid Seion am fwrw iddi i sefydlu'r wefan newydd. Ceir llawer o wybodaeth arni eisoes ynghyd â'r cyhoeddiadau wythnosol mae'r gweinidog yn eu trosglwyddo i Maldwyn ac yntau yn eu gosod ar y wefan ar nos Sadwrn.

Seion yn Trydaru

Seion, Aberystwyth (@Seion1816) | Twitter



Mae'r trydaru yng ngofal Dilwyn. Ceir nifer o sylwadau diddorol ganddo ynghyd ag ambell i lun trawiadol! Hefyd mae'n cynnwys testunau oedfaon y Sul.

Oedfa Deuluol



Ar ddydd Sul, 19 Mawrth cawsom oedfa deuluol i ddathlu gŵyl ein nawddsant a thri chan mlynedd geni'r Pêr Ganydydd. Cafwyd cyfraniadau didwyll a graenus gan y plant a'r ieuencid o dan arweiniad y gweinidog. Cawsom gyfle i gyfrif ein bendithion a diolch am gariad Crist, sy'n newid dynion er daioni. Anogwyd ni i adlewyrchu ei gariad yn y byd yn nerth yr Ysbryd Glân. Ar derfyn yr oedfa derbyniwyd offrwm o £705 i gefnogi Apêl De Swdan Cymorth Cristnogol. Diolch am bob cyfraniad hael.

Oedfa Deuluol Bore'r Pasg

Roedd yr Oedfa Deuluol i ddathlu'r atgyfodiad ar fore Sul y Pasg yn arbennig o gofiadwy gyda'r plant yn actio ac yn llfaru ar eu gorau. Darllenodd Eiry o'r Ysgrhythur. Canodd Sophie emyn *Y Trydydd Dydd* ac fe wnaeth Ifan ac Elinor ganu deuawd *Calon Lân* ar y dôn *The Rose*. Cawsom unawd offerynnol gan Tomos a bu Elinor, Gruffudd ac Ifan yn actio sgets yn seiliedig ar hanes y ddau ar eu ffordd i Emaus. Ymunodd yr ieuencid a'r mamau i ganu, *O fy Iesu, fy annwyl Waredwr*. Cafodd y gweinidog gymorth y plant gyda symudiadau arbennig wrth rannu ei neges ar wyrth yr Atgyfodiad gan bwysleisio bod Iesu am ymuno â ni fel y bu iddo ymuno â'r ddau ar y ffordd i Emaus. Gweinyddwyd Ordinhad Swper yr Arglwydd a chafodd y plant wyau Pasg ynghyd â *Comic Beiblaidd y Pasg – Arwyr Angora*.

Cymanfa Eglwysi Gogledd Ceredigion

Cynhaliwyd Oedfa Deuluol y Gymanfa ym Methel, Talybont ar fore Sul, 14 Mai, 2017. Diolch yn fawr iawn i blant Seion am gyflwyno'r emyn, *Mae'n Duw ni mor fawr*, mewn ffordd mor ddramatig a bywiog. Cafodd pawb oedd yn bresennol yn y Gymanfa Ganu yn yr hwyr fwynhad a bendith. Gwerthfawrogwn yn fawr wasanaeth Mr David Griffiths fel arweinydd y rihysal yn Seion.

Cymorth Cristnogol

Cynhaliwyd Siop Cymorth Cristnogol yn Ffestri Seion. Diolch i bawb a fu'n gweithio yno ac am y cyfraniadau at y Stodin Gacennau. Diolch hefyd i Mair Rowlands, Beryl Jenkins a Delyth Fletcher am gasglu o ddrws i ddrws. Gwerthfawrogwn wasanaeth Anita Owen yn cydlynu'r cyfan ar ein rhan ac am ei gwaith fel Trysorydd Pwyllgor Cymorth Cristnogol Ardal Aberystwyth.

Bedydd

Yn yr oedfa ar fore Sul, 9 Ebrill, 2017 bedyddiwyd Siôn, mab Rhodri a Sara Gibson a brawd bach Mari a Gwen.



Cyfeiriad Newydd

Mr Gareth Rowlands, 9, Rheidol Place Flats, Tanycae, SY23 1JN

I'ch Dyddiadur...

Dydd Sul, 4 Mehefin

3.30 Byddwn yn cynnal oedfa yng Nghartref Tregerddan

Dydd Llun, 5 Mehefin

12.00 Cinio Bara a Chaws Cymorth Cristnogol yn Seion

Bore Mercher, 7 Mehefin

10.30 Bore Coffi Cymdeithas y Capel

Dydd Sul, 11 Mehefin

Cynhelir Cwrdd Eglwys yn dilyn oedfa'r bore

Nos Lun, 12 Mehefin

7.00 Cyfarfod o Bwyllgor y Gymdeithas i drefnu'r rhaglen am y tymor

Dydd Iau – Sadwrn, 15-17 Mehefin

Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Rhydaman

Dydd Sul, 2 Gorffennaf

10.00 Oedfa'r bore ac Ysgol Sul y plant a'r ieuentid

3.00 Cynhelir Oedfa Gymun fer yn y festri gyda the yn dilyn. Bydd cyfle arbennig i rannu cymdeithas yn yr Arglwydd.

Bore Mercher, 5 Gorffennaf

10.30 Bore Coffi Cymdeithas y Capel

Dydd Sul, 9 Gorffennaf

10.00 Oedfa Deuluol arbennig yng nghwmni'r plant a'r ieuentid gyda choffi yn dilyn.

6.00 Oedfa'r hwyr. Ar derfyn yr oedfa byddwn yn lansio cyfrol Glyn Lewis Jones ar Hanes Eglwys Gynulleidfaol Seion.

Dydd Sul, 3 Medi

Bydd yr Ysgol Sul yn ail-gychwyn

Dydd Llun, 11 Medi

6.15 Cyfarfod nesaf o Bwyllgor y Nodion

Y Gymdeithas

Ddiwedd mis Mawrth daeth ein tymor o gyfarfodydd hwyrol i ben am eleni gyda sgwrs hynod ddifyr gan Gerallt Davies. Er bod Gerallt yn aelod gyda ni yn Seion ers nifer fawr o flynyddoedd, bachgen o Lambed ydyw ac aeth a ni ar daith o'i blentyndod i'w hanes ym myd y banciau mawr yng Nghaerdydd a Llundain cyn dychwelyd i Geredigion i ddechrau ei fusnes ariannol ei hun. Ers yn ifanc mae ganddo ddiddordeb mewn chwaraeon, yn bennaf criced a rygbi, a thra ar daith yn Ne Affrica cafodd ef a'i ffrindiau eu gwahodd i oedfa Gymun ac wedyn am frechwast gyda'r Archesgob Desmond Tutu. O'r brwdfrydedd yn ei lais roedd yr atgof yn un o uchafbwyntiau mwyaf ei fywyd ond sydd hefyd, erbyn hyn, wedi ei gysgodi gan ei brofiad o fod yn Dad-cu.

Diolch yn fawr iawn i holl siaradwyr a chyfranwyr i'n rhaglen eleni.

Os ydych yn fodlon helpu yn achlysurol i baratoi te ar gyfer ein cyfarfodydd nosweithiol neu ar gyfer ein bore coffi misol ar gyfer y Gymdeithas, a fydddech cystal â rhoi gwybod i Gwenda James (Ysgrifennydd) os gwelwch yn dda (gwenda_llan@yahoo.co.uk).

Y Cymundeb

Os ydych yn fodlon helpu i baratoi'r Cymundeb yn ystod y flwyddyn a fydddech cystal â rhoi gwybod i Gwenda James (Ysgrifennydd) os gwelwch yn dda (gwenda_llan@yahoo.co.uk).

Pregethwr

25 Mehefin - Y Parchg. Casi Jones

Lleoliad Oedfaon Unedig mis Awst

6 Bethel, 13 Morfa, 20 Seion, 27 Bethel

Trefn Gwasanaethau'r Cymun

2 Gorffennaf (3.00 y prynhawn),
30 Gorffennaf (bore), 3 Medi (bore).